JAMBORi

EWRO MENYWOD CYMRU
WALES' WOMEN'S EURO SINGALONG 2025

CEFNOGI MEWNYWOD CYMRU
20 25
URDD GOBAITH CYMRU

DWI'N GYMRO, DWI'N GYMRAES

Mae 'na Ddwyrain, mae 'na Orllewin
Mae 'na Ogledd ac mae 'na Dde;
Mae mynyddoedd a dyffrynnoedd
Yn codi a disgyn dros y lle.
Mae 'na lynnoedd ac mae 'na afonydd,
Mae 'na draethau aur ger y môr,
Pentrefi a dinasoedd,
Canwn yn un côr...

Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes,
A dyma fi yn codi fy llais.
Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes,
Dwi'n caru fy ngwlad, dwi'n caru fy iaith!

Mae 'na hanes, ac mae 'na chwedlau,
Mae 'na arwyr di bendraw,
Mae 'na groeso ar bob aelwyd
Mae pawb yn mynnu estyn llaw.
Ac mae'n rhaid i ni ei thrysori,
Rhoddwyd hon i ti ac i mi,
Fe'i carwn a'i gwarchodwn,
Cenwch gyda ni...

Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes,
A dyma fi yn codi fy llais.
Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes,
Dwi'n caru fy ngwlad, dwi'n caru fy iaith!

Cymru!
Gwaeddwch i bendraw'r byd!
Cymru!
Gwaeddwch bawb ynghyd!

Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes,
A dyma fi yn codi fy llais.
Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes,
Dwi'n caru fy ngwlad, dwi'n caru fy iaith!